

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth



**Strategaeth Sgiliau Ieithyddol
Iaith Gymraeg
2013 - 2016**



monmouthshire
sir fynwy

Rhagair

Adeg Cynllun Iaith Gymraeg cyntaf Cyngor Sir Fynwy yn 1998, roedd lefel y galw am wasanaethau Cymraeg yn y sir yn isel iawn. Dangosodd cyfrifiad 1991 mai dim ond 2.3% o boblogaeth Sir Fynwy oedd yn siarad Cymraeg ac nid oedd fawr o arwydd y byddai'r iaith bydd yn adfywio yn yr ardal.

Fodd bynnag, dangosodd cyfrifiad 2001 y bu newidiadau sylweddol a bod y newidiadau hynny'n parhau i ddigwydd ym mhroffil ieithyddol y sir. Mae sefydlu dwy ysgol gynradd Gymraeg, Ysgol y Ffin ac Ysgol y Gymraeg y Fenni, addysgu'r Gymraeg fel rhan allweddol o'r cwricwlwm cenedlaethol a diddordeb cynyddol ymysg preswylwyr o bob oedran mewn dysgu'r iaith i gyd wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y bobl a ddynodwyd fel siaradwyr Cymraeg i 9.3% o boblogaeth y sir. Roedd y twf yn y nifer o siaradwyr ifanc y Gymraeg yn arbennig o amlwg. Dangosodd Cyfrifiad 2011 unwaith eto gynnydd bychan yn y nifer o siaradwyr Cymraeg sy'n byw yn Sir Fynwy o 9.3% i 9.9% neu 8,740 o bobl. Yn hynod, mae Sir Fynwy yn un o ddim ond 2 Gyngor allan o 22 i weld cynnydd.

Dyma Strategaeth Sgiliau Ieithyddol Iaith Gymraeg gyntaf y Cyngor a bydd yn ei gwneud yn ofynnol i adrannau'r Cyngor benderfynu pa swyddi fydd angen sgiliau yn y Gymraeg fel gofyniad hanfodol i allu delio gyda'r preswylwyr sy'n siarad Cymraeg yn Sir Fynwy. Bydd y Cyngor yn rhoi ei gefnogaeth lawn i'r strategaeth yma er mwyn ceisio cynnal y cynnydd cadarnhaol iawn yn nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n byw yn y Sir. Bydd yn gweithio ar y cyd gyda chynllun Iaith Gymraeg newydd y Cyngor a gymeradwywyd yn ffurfiol gan Cabinet ar 22ed o Dachwedd 2012 a bydd yn parhau i ddatblygu darpariaeth gwasanaeth ac ymrwymiad y Cyngor tuag at y Gymraeg yn unol â gofynion disgwylidig y Safonau mewn perthynas â'r Gymraeg (fel y'i cyflwynwyd gan Fesur yr Iaith Gymraeg 2011).

Paul Matthews

Prif Weithredwr

Cynghorydd Peter Fox

Arweinydd y Cyngor

Cynghorydd Phylip Hobson

**Dirprwy Arweinydd y Cyngor
a Hyrwyddwr Cydraddoldeb**

Cynnwys

Rhagair	2
Cynnwys	3
Cyflwyniad.....	4
Siaradwyr Cymraeg yn Sir Fynwy yn ôl ward - Cyfrifiad 2011.....	5
Nodau ac amcanion	6
Iaith a Chydraddoldeb	7
Heriau	7
Asesu'r nifer o siaradwyr Cymraeg sydd eu hangen mewn Adrannau	8
Archwiliad o sgiliau dwyieithog presennol	8
Recriwtio a dethol	9
Hyfforddiant a datblygu	9
Atodiad 1 Cynllun Gweithredu ac Amserlen	10
Atodiad 2 Holiadur sgiliau iaith Gymraeg.....	11

1 Cyflwyniad

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad i'r strategaeth, dangosodd Cyfrifiad 2011 mai Sir Fynwy a Chaerdydd oedd yr unig ddau gyngor yng Nghymru a welodd gynydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg o 9.3% yn 2001 i 9.9% neu 8,740 o bobl yn 2011. Mae felly'n bwysig iawn y gall cyflwyniad strategaeth gadarn ar Sgiliau Ieithyddol ynghyd â Chynllun Iaith Gymraeg newydd y Cyngor 2013-2016 gyfrannu mewn rhyw ffordd tuag at gynnal y tueddiad cadarnhaol iawn hwn.

Mae gan Gyngor Sir Fynwy ymrwymiad i'r egwyddor y byddwn yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru ac o'r herwydd rydym yn anelu i ddarparu ystod o wasanaethau sydd o'r un safon ac ansawdd uchel yn y ddwy iaith.

Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg yn nodi sut y bydd yn rhoi'r egwyddor hynny ar waith i gefnogi nod 'Iaith byw iaith fyw', Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru Ddwieithog,

Er mwyn ein cynorthwyo iaith byw iaith fyw, mae datblygu Strategaeth Sgiliau Ieithyddol a ddatblygir i redeg wrth ochr y Cynllun yn gam gweithredu allweddol yng Nghynllun Gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg 2012-2015.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi datblygu Strategaeth Iaith Gymraeg "Mwy na Geiriau", sy'n anelu i roi dewis iaith i siaradwyr Cymraeg pan ddewisant wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn Gymraeg. Mae'r Cyngor yn gweithio ar gynllun gweithredu'r strategaeth i sicrhau ei fod yn cyflawni ei nodau a'i amcanion.

2 Siaradwyr Cymraeg yn Sir Fynwy yn ôl ward - Cyfrifiad 2011

	Preselwyr 3+	Siarad	Siarad	Siarad,darllen + ysgrifennu,	Siarad,darllen + ysgrifennu,
Enw Adran Etholiadol	Rhifau	Rhifau	%	Rhifau	%
Caer-went	1735	151	8.7	114	6.6
Castell Cil-y-coed	1885	221	11.7	166	8.8
Cantref	1994	169	8.5	127	6.4
Castell	1749	173	9.9	127	7.3
Croesonnen	2330	232	10	160	6.9
Crucornau Fawr	2054	216	10.5	158	7.7
Devauden	1448	139	9.6	94	6.5
Llanddewi	1888	172	9.1	120	6.4
Dixton gydag Osbaston	2501	180	7.2	129	5.2
Drybridge	3291	346	10.5	238	7.2
Goetre Fawr	2332	270	11.6	197	8.4
Green Lane	2014	220	10.9	147	7.3
Grofield	1785	185	10.4	128	7.2
Lansdown	2125	202	9.5	129	6.1
Larkfield	1952	151	7.7	108	5.5
Llanbadog	1281	135	10.5	96	7.5
Bryn Llanelli	3818	337	8.8	253	6.6
Llan-ffwyst Fawr	1811	211	11.7	158	8.7
Llangybi Fawr	1820	163	9	132	7.3
Llanofer	2244	173	7.7	128	5.7
Llandeilo Gresynni	1718	164	9.5	118	6.9
Llanwenarth Tu Draw	1406	117	8.3	92	6.5
Y Maerdy	1432	150	10.5	109	7.6
Y Felin	2424	263	10.8	209	8.6
Llanfihangel Troddi	1221	108	8.8	86	7
Overmonnow	2314	196	8.5	146	6.3
Porth y Sgewin	2083	220	10.6	167	8
Y Priordy	2117	219	10.3	166	7.8
Rhaglan	1876	209	11.1	144	7.7
Rogiet	1747	272	15.6	203	11.6
St. Arvans	1569	134	8.5	95	6.1
St. Christopher's	2490	299	12	214	8.6
St. Kingsmark	3032	247	8.1	186	6.1
St. Mary's	1776	120	6.8	82	4.6
Hafren	1630	172	10.6	123	7.5
Drenewydd Gelli-farch	2158	172	8	112	5.2
The Elms	3536	452	12.8	335	9.5
Thornwell	2630	282	10.7	189	7.2
Tryleg Unedig	2694	261	9.7	187	6.9
Brynbuga	2766	271	9.8	195	7
West End	1861	199	10.7	155	8.3
Wyesham	2072	207	10	151	7.3
Total	88609	8780	9.90%	6373	7.20%

3 Nod ac Amcanion

Nod y Strategaeth yma yw gweithredu ei ymrwymiad i ddelio gyda'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg yn eu dewis iaith.

Amcanion y Strategaeth yw sicrhau y caiff gwasanaethau dwyieithog Cymraeg a Saesneg i'r cyhoedd eu cynllunio, ariannu, adnoddau a'u darparu'n ddigidol, yn nhermau adnoddau dynol, ym mhob rhan o'r Cyngor. Mae'r Strategaeth hefyd yn egluro sut y bydd y Cyngor yn anelu i gynyddu nifer y staff gyda sgiliau yn y Gymraeg, er mwyn datblygu darpariaeth gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Daw'r Strategaeth ynghyd â gwahanol agweddau cydraddoldeb mewn dewis iaith mewn darpariaeth gwasanaeth, gofal cwsmeriaid, datblygu, recriwtio a dethol staff ynghyd mewn un strategaeth, a aiff â'r Cyngor ymlaen mewn ffordd gadarnhaol, wrth baratoi'r Strategaeth. Argymhellir dilyn y pum cam gweithredu dilynol, yn seiliedig ar y fethodoleg a argymhellir gan Gomisiynydd y Gymraeg:

1. Cynnal archwiliad sgiliau a diweddarau gofynion dwyieithog gweithleoedd a swyddi yn barhaus.
2. Diweddarau'n barhaus sgiliau dwyieithog staff presennol a staff newydd.
3. Sefydlu trefniadau addas ar gyfer cymharu'r uchod - h.y. yr anghenion sgiliau gyda'r adnoddau sgiliau sydd ar gael
4. Gweithredu rhaglen weithredu ar gyfer cau'r bwlch sgiliau
5. Sefydlu trefniadau addas ar gyfer monitro a rhoi adroddiadau ar weithrediad y strategaeth

Drwy weithredu'r Strategaeth, bydd y Cyngor yn:

- (i) Sicrhau bod preswylwyr o fewn ei ffiniau daearyddol yn cael y gwasanaethau y maent eu hangen yn eu dewis iaith, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol;
- (ii) Sicrhau y caiff cwsmeriaid y Cyngor eu trin yn gyfartal, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, beth bynnag yw eu hanghenion iaith a sut bynnag y maent yn delio gyda'r Cyngor;
- (iii) Sicrhau fod staff yn derbyn hyfforddiant priodol fel y gallant ddelio'n effeithlon gyda chwsmeriaid, beth bynnag yw eu hanghenion iaith;
- (iv) Sicrhau fod arferion recriwtio a dethol o fewn y Cyngor yn adlewyrchu'r angen i ddarparu'r uchod;
- (v) Sicrhau fod yr holl gyflogeion yn cael mynediad i'r cyngor, arweiniad a chefnogaeth briodol i'w galluogi i weithredu gofynion Cynllun Iaith Cymraeg y Cyngor yn gywir;
- (vi) Gweithio gyda phartneriaethau ac asiantaethau cymunedol priodol i wella'r amrediad o sgiliau iaith sydd ar gael i'r Cyngor lle'n bosibl ee Menter Iaith, yr Urdd, Coleg Gwent; Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan;
- (vii) Gweithredu gofynion Cynllun Iaith Gymraeg a Chynllun Gweithredu 2013-16 y Cyngor;
- (viii) Sicrhau cynnal monitro mewnol i ddarparu gwybodaeth ystadegol ystyrlon i alluogi'r Cyngor i nodi meysydd o arfer da a meysydd lle gall fod angen datblygu pellach.

4 Iaith a Chydraddoldeb

Daeth iaith yn rhan o agenda ehangach Cydraddoldeb gan y cydnabuwyd bod iaith gyntaf neu ddewis iaith person mor hanfodol iddynt ag yw lliw eu llygaid neu groen. Mae gwahaniaethu oherwydd iaith mor annerbyniol â gwahaniaethu oherwydd rhyw, lliw, hil, anabled person ac yn y blaen, ac mae'n hanfodol fod y Cyngor yn cydnabod ac yn deall yr egwyddor yma.

Mae'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle yn sgil gwerthfawr iawn a all gynorthwyo'r Cyngor i ddarparu gwasanaeth mwy addas i'w anghenion i'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg.

Un o amcanion allweddol allweddol y strategaeth hon yw ceisio cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg a gyflogir gan y sefydliad, ac felly mae'n ofynnol i reolwyr llinell gefnogi ac annog aelodau o staff sy'n dysgu Cymraeg neu rai sy'n dymuno dymuniad i wneud hynny.

Mae'n hanfodol fod staff yn dod yn gyfarwydd gyda'r ddogfen hon, y Cynllun Iaith Gymraeg/Cynllun Gweithredu a Chynllun Cydraddoldeb Strategol 2012-2016 y Cyngor er mwyn osgoi parhau diffyg cydraddoldeb mewn mynediad i wasanaethau. Lle mae sefydliad yn defnyddio polisïau, gweithdrefnau ac arferion nad ydynt yn rhoi ystyriaeth i wahanol anghenion cyflogeion, darpar gyflogeion, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill, gellir dweud bod y sefydliad hwnnw'n hyrwyddo anghydraddoldeb sefydliadol.

5 Heriau

Mae heriau llym i gael eu hwynebu wrth geisio cefnogi gweithrediad y Strategaeth yma.

- Asesu nifer y swyddi ym mhob adran lle bydd angen siaradwr Cymraeg i ddelio gyda'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg.
- Sicrhau fod y Cyngor yn rhoi cydnabyddiaeth lawn ac yn ystyried y dylai sgiliau iaith Gymraeg gael eu trin yr un fath ag unrhyw sgiliau eraill sydd eu hangen am gymwysterau ar gyfer swyddi gwag.
- Cynnal archwiliad i leoli staff y Cyngor sydd â sgiliau yn y Gymraeg
- Annog y staff hynny fod eu sgiliau yn ddigon da i ddelio gyda'r cyhoedd
- Annog a chefnogi staff i ddysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau
- Rhoi dewis iaith yn y broses recriwtio a phenodi
- Gweithio i ddenu mwy o geisiadau gan siaradwyr a dysgwyr Cymraeg
- Annog yr holl staff i arddangos cwrteisi ieithyddol sylfaenol yn y Gymraeg
- Gweithio tuag at ddewis iaith gwarantiedig wrth y "ddeg flaen"
- Hysbysu staff cyfredol a staff newydd am Gynllun Iaith Gymraeg a Strategaeth Sgiliau Ieithyddol y Cyngor a'r ymrwymadau ynddynt
- Annog siaradwyr Cymraeg i ofyn am wasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg

6 Asesu'r nifer o siaradwyr Cymraeg sydd eu hangen mewn adrannau

Cynhelir ymchwiliad ym mhob adran i ddynodi faint o swyddi fydd angen siaradwyr Cymraeg i ddelio gyda'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg a chael eu dynodi fel swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol. Lle mae angen y gallu i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg o fewn tîm, rhoddir sylw i nifer o rolau - mae'n rhaid i un neu fwy o'r rolau hyn gael eu llenwi gan siaradwr Cymraeg gyda'r sgiliau ieithyddol angenrheidiol. Bydd y dull gweithredu yma yn sicrhau hyblygrwydd i reolwyr i uchafu'r holl sgiliau sydd ar gael o fewn eu tîm.

Caiff pob rôl a ddynodir fel un lle mae angen sgiliau yn y Gymraeg eu hasesu am lefel yr ystod sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y swydd neilltuol honno. Os penodir rhywun am unrhyw reswm nad oes ganddynt y lefel neu'r amrediad sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y swydd, rhoddir hyfforddiant priodol iddynt i wella eu sgiliau i'r lefel a ddynodwyd ar gyfer y swydd o fewn amserlen a gytunwyd gan eu rheolwr ac Adnoddau Dynol.

Lle mae staff sydd mewn swyddi ar hyn o bryd a ddynodir fel rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol, cynigir cyfle i'r staff i ddysgu Cymraeg un ai yn ystod oriau gwaith neu'n ystod eu hamser eu hunain yn ôl eu dewis personol - bydd y Cyngor yn talu am gost yr hyfforddiant. Lle daw swydd lle mae'r Gymraeg yn hanfodol yn wag, gwneir pob ymdrech i recriwtio unigolyn sydd â'r sgiliau ieithyddol perthnasol i'r disgrifiad swydd. Bydd y Cyngor hefyd yn annog ceisiadau gan siaradwyr Cymraeg fel rhan o'i bolisi recriwtio.

7 Cynnal archwiliad o Sgiliau Dwyieithog presennol

Er mwyn datblygu ei alluedd sgiliau dwyieithog, mae'n hanfodol fod y Cyngor yn canfod yn gyntaf faint o'u staff sydd â sgiliau yn y Gymraeg, beth yw'r sgiliau hynny (siarad, darllen, ysgrifennu a deall), lefel eu gallu, pa swydd a wnânt ac i ba adran. Bydd angen cynnal arolwg ar draws y Cyngor o sgiliau yn y Gymraeg a bydd yn gofyn y cwestiynau uchod a hefyd os ydynt yn fodlon defnyddio eu sgiliau yn y Gymraeg yn eu man gwaith neu fel trydydd parti i adrannau eraill.

Bydd y Swyddog Cefnogaeth Iaith Gymraeg yn cofnodi'r wybodaeth a geir o'r holiadur ar gronfa ddata a bydd hyn ar gael i adran Adnoddau Dynol y Cyngor. Mae Adnoddau Dynol wedi ailgynllunio eu ffurflen cyfle cyfartal ar gyfer y broses gais i gynnwys cwestiynau yng nghyswllt sgiliau yn y Gymraeg a'u dewisiadau er mwyn sicrhau y cedwir yr wybodaeth yn gyfoes. Caiff aelodau staff sy'n dysgu Cymraeg eu hasesu'n gyfnodol am lefel eu hyfedredd yn yr iaith.

Bydd enwau staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl - hynny yw, sy'n gymwys, hyderus ac yn fodlon defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd - ar gael drwy system wybodaeth fewnol y Cyngor - Y Pwynt.

8 Recriwtio a Dethol

Mae llawer o sgiliau i'w hystyried pan fo'r Cyngor yn recriwtio staff ar bob lefel, Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn un o'r sgiliau a ystyrir wrth wneud apwyntiadau. Lle mae gan ddau ymgeisydd ar gyfer swydd nifer gyfartal o bwyntiau yn y broses ddethol, caiff lefel y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg ei ystyried fel sgil ychwanegol.

Yn ystod y broses ddethol, rhoddir ystyriaeth i ddwyieithrwydd fel sgil ddymunol yn ôl nodau ac amcanion corfforaethol y sefydliad. Wrth ystyried apwyntiadau lle aseswyd fod

ymgeiswyr yn dangos gallu cyfartal ar gyfer rôl benodol, yna er mwyn gwahaniaethu rhwng y ddau, rhoddir blaenoriaeth i'r ymgeisydd sy'n gallu dangos sgiliau yn y Gymraeg sy'n fodlon defnyddio'r sgiliau hynny i gefnogi a chyflenwi sgiliau yn y Gymraeg.

Bydd y Cyngor yn dynodi'r gweithleoedd a swyddi hynny lle mae'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn hanfodol a bydd yn ffurfio disgrifiadau swydd yn y dyfodol yn unol â hynny. Gall y gofyniad hwn gael ei ddiffinio fel elfen o weithle neu dîm, yn hytrach na chael ei gysylltu gyda swydd neilltuol.

Mae'n rhaid i'r holl staff sy'n gyfrifol am ysgrifennu neu werthuso disgrifiadau swydd a rheolwyr adrannol sicrhau y cydymffurfir â'r Strategaeth pan fyddant yn hysbysebu neu'n penodi staff newydd, neu pan yn ail-werthuso disgrifiad swydd neu pan gynhelir gwerthusiad staff.

Pan gaiff swydd newydd ei chreu, neu pan ddaw swydd bresennol yn wag ac y caiff ei hadolygu, bydd y rheolwr llinell sy'n gyfrifol am y swydd honno yn gwerthuso gofynion ieithyddol y swydd honno.

Rhaid i unrhyw sgiliau yn y Gymraeg y bernir eu bod yn hanfodol ar gyfer y swydd gael eu nodi o fewn y fanyleb bersonol ar gyfer y swydd. Mae'n rhaid i'r lefel o'r Gymraeg y dyfernir yn angenrheidiol ar gyfer unrhyw rôl fod yn addas ar gyfer y tasgau a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig gyda'r swydd honno, e.e.byddai lefel dda o sgiliau llafar yn hytrach nag ysgrifenedig yn fwy addas os mai swydd croesawydd, er enghraifft, oedd dan ystyriaeth. Ar y llaw arall, mae'n rhesymol awgrymu y dylai swyddog cyfathrebu fod â lefelau uwch o sgiliau ysgrifenedig. Mae'n rhaid i ddisgrifiadau swydd nodi'n glir unrhyw dasgau sydd angen eu gwneud yn Gymraeg.

9 Hyfforddiant a Datblygu

Er mwyn gwella'r ystod gwasanaethau dwyieithog y gall eu cynnig, mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd gan hyfforddiant a chefnogi staff presennol rôl bwysig wrth ochr recriwtio staff newydd sydd eisoes â sgiliau yn y Gymraeg.

Wrth ddatblygu strategaeth hyfforddiant gadarn ar gyfer y Gymraeg o fewn y sefydliad, rhoddir ystyriaeth i gefndiroedd ac anghenion hyfforddiant gwahanol unigolion. Pan fyddant yn datblygu cynllun hyfforddiant, rhoddir ystyriaeth ddechreuol i ddiweddarau neu gefnogi'r sgiliau iaith Gymraeg presennol neu gudd o fewn y Cyngor yn hytrach na hyfforddi aelod o staff heb unrhyw sgiliau presennol.

Caiff darpariaeth hyfforddiant a chynnydd y rhai sy'n dysgu'r iaith ei adolygu'n barhaus a chaiff blaenoriaethau eu hailasesu lle bo angen. Gwneir y monitro yma gan Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg, Swyddog Cefnogaeth y Gymraeg a'r Rheolwr Hyfforddiant. Cydnabyddir y bydd pa mor gyflym y gall unigolion ddysgu Cymraeg yn cael effaith uniongyrchol ar y targedau a osodwyd ar gyfer gwella darpariaeth gwasanaethau dwyieithog. Gwerthfawrogir hefyd y gall sgiliau ieithyddol amrywio o berson i berson ac y gall rhai gymryd mwy o amser nag eraill i ddysgu'r iaith. Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod y cyfraniad gwerthfawr y gall staff dwyieithog presennol ei wneud drwy helpu ac annog dysgwyr i ymarfer eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd gwaith.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y strategaeth, gallwch anfon neges e-bost i'r Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg ar: alanburkitt@monmouthshire.gov.uk neu ei ffonio ar 01633 644010

Atodiad 1 Cynllun gweithredu ac amserlen 2013 - 2016

Amcan	Cam Gweithredu	Canlyniad	Amserlen	Swyddog/ion Cyfrifol
Sicrhau fod y Strategaeth yn addas ac y gellir ei chyflawni	Ymgynghori gyda phartneriaid mewnol ac allanol ar fersiwn ddrafft o'r Strategaeth Sgiliau Ieithyddol	Gwnaed gwelliannau ac anfonwyd drafft drwy broses ffurfiol ar gyfer ei mabwysiadu	22 Ebrill - 10 Mai 2013	Swyddog Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg
Strategaeth i geisio cymeradwyaeth ffurfiol	Adroddiad ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i gyd-fynd â drafft strategaeth i'r Cabinet i geisio cymeradwyaeth	Cymeradwyo'n ffurfiol/ cyhoeddi ar y Rhyngwrwd ac yn fewnol (Y Pwynt Team Spirit)	3 Mehefin 2013	Swyddog Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg
Pa sgiliau iaith sydd ar gael yn y Cyngor	Cynnal archwiliad iaith o'r Staff	Darlun mewnol o'r sgiliau iaith presennol ymysg staff	Ionawr 2014	Swyddog Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg/ Swyddog Cefnogaeth Iaith Gymraeg / Swyddog Adnoddau Dynol
Pennu pa swyddi ddylai gael eu dynodi'n rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol o fewn Cyfarwyddiaethau	Archwilio strwythurau staffio presennol ac ystyried y lefelau sgiliau gofynnol a mathau o gyswllt gyda'r cyhoedd	Ystod o swyddi ar draws pob cyfarwyddiaeth yn cael eu dynodi fel rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol	Hydref 2014	Timau Rheoli Adrannau, Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith Gymraeg/ Swyddog Adnoddau Dynol
Cofnod cyfredol o sgiliau iaith staff	Datblygu system o gofnodi sgiliau iaith personol	Y Cyngor yn gallu asesu bylchau sgiliau mewn cyfarwyddiaeth	Mawrth 2015	Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith Gymraeg/ Adnoddau Dynol
Sicrhau fod yr holl staff yn gwybod am y siaradwyr Cymraeg yn y Cyngor sy'n fodlon gweithredu fel trydydd parti.	Dosbarthu rhestr o siaradwyr Cymraeg i bob Cyfarwyddiaeth a cyhoeddi ar The Point a Team Spirit	Gellir trafod gyda'r Cyhoedd yn eu dewis iaith	Hydref 2015	Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith Gymraeg/ Cyfathrebu

Atodiad 2

Holiadur Iaith Gymraeg Cyngor Sir Fynwy

Mae Cyngor Sir Fynwy yn cynnal arolwg o sgiliau Cymraeg ei gyflogeion fel rhan o'n gwaith cyfredol ym maes cydraddoldeb. Bydd hyn yn rhoi dealltwriaeth llawer gwell i'r Cyngor o'i allu presennol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg a helpu i gynllunio datblygu'r gwasanaethau hyn yn y dyfodol. Gofynnir i chi roi munud neu ddau i lenwi'r holiadur yma fel y medrwn ganfod lefel y sgiliau Cymraeg sydd ar gael o fewn y Cyngor.

Caiff yr wybodaeth a roddir ei thrin yn gyfrinachol - ni roddir pwysau ar staff i gymryd unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau ychwanegol yn unig oherwydd eu gallu ieithyddol.

Llenwch a dychwelwch yr holiadur os gwelwch yn dda erbyn xxxxxxxx

Adran A

- A1. Enw _____
- A2. Teitl Swydd _____
- A3. Tîm, Gwasanaeth _____
- A4. Lleoliad _____
- A5. Rhif Cyflogres _____
- A6. Rhifau ffôn _____ (swyddfa) _____ (symudol)
- A5. Cyfeiriad E-bost _____

Adran B

B1. Pa lefel o rugledd sydd gennych yn y Gymraeg?

	<i>Ychydig</i>	<i>Gweddol</i>	<i>Cryn Dipyn</i>	<i>Rhugl</i>	<i>Dim o gwbl</i>
Deall					
Siarad					
Darllen					
Ysgrifennu					

Os gwnaethoch roi 'dim o gwbl' i bob categori, ewch i Adran D os gwelwch yn dda.

Adran C

C1. Pa mor aml ydych chi'n defnyddio'r Gymraeg wrth wneud eich dyletswyddau yn y gweithle?

	<i>Byth</i>	<i>Weithiau</i>	<i>Yn aml</i>	<i>Bob dydd</i>
Dros y ffôn				
Cyfarfodydd wyneb i wyneb				
Darllen gohebiaeth				
Ysgrifennu gohebiaeth				

C2. Ble cawsoch chi eich sgiliau yn y Gymraeg?

Gartref <i>Ee.Rhieni, mamgu/tadcu yn siarad Cymraeg</i>	Ysgol <i>Ee Lefel O/A</i>	Cwrs Oedolion gyda Sir Fynwy <i>Ee Cwrs Mynediad</i>	Cwrs Oedolion gyda rhywun arall (noder)	Arall (Noder)

Adran D

D1. Ydych chi'n astudio Cymraeg ar hyn o bryd? (*Os 'ydych', rhestrwch y cwrs/cyrsiau a'r lefel/au*)

Ydw Na

D2. Fyddai gennych chi ddiddordeb mewn dysgu neu wella eich sgiliau yn y Gymraeg?

Byddai Na

D2. Fyddai gennych chi ddiddordeb mewn gweithredu fel siaradwr Cymraeg trydydd parti ar gyfer adrannau eraill drwy sgwrsio yn Gymraeg gydag aelodau o'r cyhoedd yn y Gymraeg?

Byddai Na

D3. Ydych chi'n siarad, darllen neu ysgrifennu unrhyw iaith/ieithoedd arall heblaw Cymraeg neu Saesneg? (yn cynnwys iaith Arwyddion Prydeinig) (*nodwch fanylion islaw os gwelwch yn dda*)

Diolch i chi am roi amser i llenwi'r ffurflen yma, gwerthfawrogir eich help gyda'r arolwg. Ar ôl ei llenwi, dychwelwch eich ffurflen drwy un o'r dulliau canlynol os gwelwch yn dda:

- Yn electronig i davidbarnes@monmouthshire.gov.uk
- Fel copi caled i David Barnes, Swyddog Cefnogaeth Iaith Gymraeg,

Cyngor Sir Fynwy, Coleg Brynbuga, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1XJ

Ffôn: 01633 644010 neu 07793798920. E-bost: alanburkitt@monmouthshire.gov.uk